At Weinidogion Cymru,

**Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**

Yn unol â'r dyletswyddau o dan adrannau 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, dyma adroddiad blynyddol **Cyngor Sir Ceredigion** ar gyfer y flwyddyn 2019-20.

| | |
|---|---|
| Y camau a gymerwyd i hybu teithiau teithio llesol | Cwblhaodd 262 o ddisgyblion hyfforddiant Kerbcraft, a oedd yn is na'r disgwyl oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 a ddaeth i rym ym Mawrth 2020.<br><br>Cwblhaodd 322 o ddisgyblion y Safon Genedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beic a oedd yn llai na'r nifer targed, eto oherwydd cyfyngiadau Covid-19.<br><br>Hefyd, cefnogodd is-adran Diogelwch ar y Ffyrdd CSC deithiau beicio cymunedol Sustrans yn ardaloedd Aberystwyth – Talybont, drwy ddarparu arweinwyr teithiau, yn ogystal â hyrwyddo Wythnos Cerdded i'r Ysgol.<br><br>Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal Swyddog Ysgolion Sustrans Gorllewin Cymru drwy ddarparu swyddfa a chymorth gweinyddol i ddeiliad y swydd.<br><br>Mae Swyddog Ysgolion Sustrans wedi parhau i gyflenwi rhaglen Hyrwyddo Teithio Llesol Sustrans o fewn nifer o Ysgolion Cynradd yng Ngheredigion, yn ogystal â hyrwyddo digwyddiadau amrywiol e.e. y Big Pedal Challenge ac Wythnos Cerdded i'r Ysgol. |
| Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig | **Cynllun Troedffordd Pontarfynach (Cronfa Trafnidiaeth Leol)**<br>Adeiladwyd rhan newydd i'r droedffordd fel y trydydd cam a'r olaf o gynllun Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau blaenorol i adeiladu troedffordd ym Mhontarfynach. Mae'r droedffordd newydd hon yn cwblhau'r cysylltiad rhwng Cwm Rheidol â chanol y pentref a'r cyfleusterau i dwristiaid, sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr.<br><br>**Croesfan Gerddwyr Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan**<br>**(Cronfa Trafnidiaeth Leol)**<br>Adeiladwyd croesfan gerddwyr reoledig newydd yn unol â safonau dylunio presennol Teithio Llesol, gyda phafin botymog, arwyddion a marciau ffordd perthynol yn y lleoliad Canol Tref hwn. |

| | |
|---|---|
| | **Cynllun Llwybr Cyd-ddefnyddio IBERS i Benrhyncoch**<br>**(Cronfa Teithio Llesol)**<br>Prynwyd tir gan Brifysgol Aberystwyth er mwyn adeiladu tua 1.2km o lwybr cyd-ddefnyddio newydd rhwng IBERS ym Mhlas Gogerddan a Phenrhyncoch. Hwn oedd Cam 2 o’r cynllun i ddarparu cysylltiad teithio llesol di-draffig rhwng cymunedau Bow Street a Phenrhyncoch. Roedd y cynllun yn plethu â datblygiad Campws Arloesi a Menter Aberystwyth ym Mhlas Gogerddan a hefyd â Gorsaf Drenau a Chyfnewidfa newydd Bow Street.<br><br>Sylwer. Yn sgil oedi oherwydd Covid-19 cafodd gwaith adeiladu’r cynllun hwn ei ddwyn ymlaen i’r Flwyddyn Ariannol ganlynol, sef 2020-21, felly gweler yr Adroddiad Blynyddol dilynol hefyd.<br><br>**Dyfarniad Grant Craidd (Cronfa Teithio Llesol)**<br>Roedd cynlluniau gwaith bach yn cynnwys:<br>• **Cynllun Arwyddion Beiciau Aberystwyth** – gosodwyd arwyddion beiciau newydd i wella cyfarwyddiadau i gyrchfannau, ac i gysylltu â Llwybrau 81 ac 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.<br>• **Cynllun Ystad Ddiwyliannol Glanyrafon** – gosodwyd cyrbiau isel a phafin botymog newydd i wella hygyrchedd, lle nad oedd darpariaeth yn bododi eisoes.<br>• **Cyffordd Lôn Piercefield, Penparcau** – lledwyd y droedffordd i ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio, a gosodwyd cyrbiau isel a phafin botymog i wella hygyrchedd. Gwnaed y gwelliant hwn cyn dechrau datblygu tai ar hen safle tafarn y Tollgate, lle roedd gofyn i’r datblygwr ddarparu llwybr cyd-ddefnyddio fel amod yn y caniatâd cynllunio ar gyfer y safle hwn.<br>• **Parcio Beiciau ym Mhrifysgol Aberystwyth** – gosodwyd cwrt beiciau newydd mwy o faint ger Derbynfa’r Porthorion i ddarparu gwell lloches rhag y tywydd. Gosodwyd cysylltiad trydan hefyd ar gyfer dwy orsaf gwefru E-feiciau o fewn y cwrt newydd. Ail-osodwyd yr Orsaf Trwsio Beiciau Gyhoeddus yn y lleoliad, gan greu ‘hwb seiclo bach’ ar gyfer myfyrwyr ac ymwelwyr â’r Brifysgol.<br>• **Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan** – gwellwyd y mynediad i gerddwyr a defnyddwyr |

| | |
|---|---|
| | cerbydau symudedd drwy osod cyfleuster newydd sy'n 'ymestyn allan' i'r stryd y tu allan i Lyfrgell y Dref. Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys gosod arwyneb tarmac newydd ar yr ardal i gerddwyr, sy'n cael defnydd mynych ac sy'n boblogaidd fel llwybr i ganol y dref.<br><br>Mae'r Dyraniad Grant Craidd hefyd wedi ariannu gwaith datblygu pellach ar gynllun Llwybrau arfaethedig y Dyfodol a thrafodaethau â rhanddeiliaid allweddol i brynu tir.<br><br>**Cynllun Cam 2 Troedffordd Rhiwgoch (Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau)**<br>Dechreuodd y gwaith adeiladu ar Ail Gam y droedffordd newydd ac roedd y cynllun hefyd yn cynnwys mesurau gostegu traffig, i helpu i ostwng cyflymder a sŵn cerbydau.<br>Roedd y cynllun hefyd yn cynnwys gosod cysgodfannau sgwteri a beiciau newydd yn ysgolion Aberaeron.<br><br>Sylwer. Yn sgil oedi oherwydd Covid-19 cafodd gwaith adeiladu'r cynllwn hwn ei ddwyn ymlaen i'r Flwyddyn Ariannol ganlynol, sef 2020-21, felly gweler yr Adroddiad Blynyddol dilynol hefyd. |
| Costau a ysgwyddir ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol | <u>**Cronfa Trafnidiaeth Leol**</u><br><br>**Cynllun Troedffordd Pontarfynach**<br>£137,844<br><br>**Llanbedr Pont Steffan, Croesfan Gerddwyr Stryd y Coleg**<br>£24,248<br><br><u>**Cronfa Teithio Llesol**</u><br><br>**Dyraniad Grant Craidd**<br>(Yn cynnwys costau adeiladu cynlluniau gwaith bach. Hefyd yn cynnwys costau datblygu cynlluniau Llwybrau'r Dyfodol h.y. cynlluniau nas hadeiladwyd eto).<br>£174,222<br><br>**Cynllun Llwybr Cyd-ddefnyddio IBERS i Benrhyncoch**<br>£256,730 |

| | |
|---|---|
| | Sylwer.  Yn sgil oedi oherwydd Covid-19 cafodd y cynllun hwn ei ddwyn ymlaen i'r Flwyddyn Ariannol ganlynol, sef 2020-21, felly gweler yr Adroddiad Blynyddol dilynol hefyd.<br><br>**<u>Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau</u>**<br><br>**Cynllun Cam 2 Troedffordd Rhiwgoch**<br>£174,000* (**)<br><br>Sylwer.  Yn sgil oedi oherwydd Covid-19 cafodd y cynllun hwn ei ddwyn ymlaen i'r Flwyddyn Ariannol ganlynol, sef 2020-21, felly gweler yr Adroddiad Blynyddol dilynol hefyd.<br><br>*yn cynnwys arian cyfatebol gan Gyngor Sir Ceredigion a (**) hefyd gan drydydd partïon y manylir arnynt isod. |

Yn ogystal â'r uchod, mae'r wybodaeth a ganlyn yn rhoi trosolwg o'r seilwaith sydd wedi cael ei weithredu yn ystod y flwyddyn flaenorol:

| | |
|---|---|
| Gwariant dangosol ar gyfer cyfleusterau a llwybrau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cael eu cyllido neu eu cyllido'n rhannol gan drydydd partïon. | **Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau**<br>• **Cynllun Cam 2 Troedffordd Rhiwgoch****<br>Darparwyd £3,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Cymuned Henfynyw.<br>Darparwyd £1,000 o arian cyfatebol gan Gyngor Tref Aberaeron. |
| Hyd llwybrau newydd:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Cyd-ddefnyddio | <br><br>110 metr<br>0<br>0 |
| Hyd y llwybrau wedi eu gwella:<br><br>- Cerdded<br>- Beicio<br>- Defnydd a Rennir | <br><br>405 metr<br>0<br>30 metr |
| Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell | Gosodwyd 1 Cysgodfan Sgwteri newydd yn Ysgol Gynradd Aberaeron.<br>Gosodwyd 1 Cysgodfan Beiciau newydd yn Ysgol Gynradd Aberaeron i annog disgyblion a staff i seiclo i'r ysgol.<br>Gosodwyd 1 Cysgodfan Beiciau newydd yn Ysgol Uwchradd Aberaeron i annog disgyblion a staff i |

| | |
|---|---|
| | seiclo i'r ysgol, a hefyd at ddefnydd aelodau'r cyhoedd sy'n defnyddio'r pwll nofio a'r ganolfan hamdden ar y safle.<br>Gosodwyd un Cwrt/Cysgodfan Beiciau newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth, ar Gampws Penglais.<br>Gosodwyd 2 set o Gylchoedd Beiciau Sheffield newydd y tu allan i Lyfrgell Tref Llanbedr P.S.<br>Cynllun Arwyddion Beiciau Aberystwyth – gosodwyd arwyddion newydd ar gyfer beicwyr a cherddwyr i roi cyfarwyddiadau gwell ar gyrraedd cyrchfannau a chysylltu â Llwybrau 81 ac 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. |

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

| |
|---|
| Arweiniodd cyfyngiadau Covid-19 at oedi yn y gwaith adeiladu ar safleoedd nifer fawr o gynlluniau – gweler yr Adroddiad Blynyddol dilynol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2020-21 am fanylion cwblhau cynlluniau. |

Rwy'n cadarnhau y bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi ar-lein ac y gellir ei gael ar ffurf copi caled ar gais, yn unol â Chanllawiau statudol y Ddeddf Teithio Llesol (argraffiad 2021).

| | |
|---|---|
| Llofnod y Prif Weithredwr: | J. Eifion Evans |
| Enw'r Prif Weithredwr: | Mr Eifion Evans |
| Dyddiad cyflwyno i Weinidogion Cymru : | 30.09.21 |

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council